# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 6

CYFFREDINOL

### 52 Ystyr "gweithgaredd ategol"

Yn y Ddeddf hon, ystyr, "gweithgaredd ategol" yw—

(a) gweithredu, ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth—

(i) i greu a rheoli cynefinoedd, neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth natur,

(ii) i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, neu

(iii) i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau;

(b) gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 52 mewn grym ar 18.8.2023, gweler **a. 56(1)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 52.